OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2010 Rhif 1547 (Cy.145) (C.84)

IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

Gorchymyn Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (Cychwyn Rhif 4, Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) (Cymru) 2010

Gwnaed - - - - 8 Mehefin 2010
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - - 10 Mehefin 2010
Yn dod i rym - - 26 Gorffennaf 2010

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 161(3) a (4), 167(2) a 170(3) o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008(**1**) yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (Cychwyn Rhif 4, Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) (Cymru) 2010.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Gorchymyn hwn—

(a) ystyr "Deddf 1984" ("*the 1984 Act*") yw Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(**2**); a

(b) ystyr "Deddf 2008" ("*the 2008 Act*") yw Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008.

Y diwrnod penodedig

2. 26 Gorffennaf 2010 yw'r diwrnod penodedig ar gyfer dwyn i rym y darpariaethau canlynol o Ddeddf 2008—

(a) adran 129, i'r graddau nad yw eisoes mewn grym;

(b) adran 130(1), ac eithrio i'r graddau y mae'n ymwneud ag adrannau 13 i 15 a 76 o Ddeddf 1984 yn peidio â chael effaith;

(c) adran 130(2);

(**1**) 2008 p.14. *Gweler* adran 171(2) o'r Ddeddf honno am ddiffiniad o "appropriate authority", sy'n berthnasol i'r pŵer a arferir.
(**2**) 1984 p.22.

(ch) adran 166, i'r graddau y mae'n ymwneud â'r darpariaethau o Ran 3 o Atodlen 15 a gychwynnir gan baragraff (dd);

(d) Atodlen 11; ac

(dd) Rhan 3 o Atodlen 15 ac eithrio i'r graddau y mae'n ymwneud â diddymu adrannau 13 i 15 a 76 o Ddeddf 1984.

Darpariaethau trosiannol ac arbed

3. Mae'r darpariaethau trosiannol ac arbed a bennir yn Atodlen 1 yn cael effaith.

Elin Jones
Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

8 Mehefin 2010

ATODLEN 1 Erthygl 3

Darpariaethau trosiannol ac arbedion

Dehongli

1. Yn yr Atodlen hon—

ystyr "y Rheoliadau Hysbysu" ("*the Notification Regulations*") yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Hysbysu) (Cymru) 2010(**3**); ac

ystyr "y Rheoliadau Pwerau Awdurdodau Lleol" ("*the Local Authority Powers Regulations*") yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Pwerau Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2010(**4**).

Adran 9 o Ddeddf 1984

2. Mae adran 9 o Ddeddf 1984 (llongau ar ddyfroedd mewndirol neu arfordirol) yn parhau mewn grym at ddibenion adran 13 o Ddeddf 1984 (rheoliadau ar gyfer rheoli clefydau penodol) (er gwaethaf diddymu adran 9 gan Ddeddf 2008).

Adran 11 o Ddeddf 1984: dyletswydd ymarferwyr meddygol cofrestredig

3.—(1) Pan fo—

(a) dyletswydd ar ymarferydd meddygol cofrestredig o dan adran 11 o Ddeddf 1984 (adrodd am achosion o glefyd hysbysadwy a gwenwyn bwyd) wedi codi cyn 26 Gorffennaf 2010 ond heb ei chyflawni cyn y dyddiad hwnnw; a

(b) y ddyletswydd honno yn gysylltiedig â chlefyd hysbysadwy a restrir yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau Hysbysu (Clefydau a Syndromau Hysbysadwy),

rhaid i'r ymarferydd meddygol cofrestredig gydymffurfio â rheoliad 2 o'r Rheoliadau Hysbysu (dyletswydd i hysbysu ynghylch amheuaeth o glefyd, haint neu halogiad mewn cleifion).

(2) At ddibenion is-baragraff (1), rhaid trin yr ymarferydd meddygol cofrestredig fel pe bai wedi ffurfio amheuaeth o dan reoliad 2(1) o'r rheoliadau Hysbysu ar 26 Gorffennaf 2010.

Adran 11 o Ddeddf 1984: dyletswydd swyddogion priodol

4.—(1) Pan fo—

(a) swyddog priodol awdurdod lleol wedi cael tystysgrif yn unol ag adran 11(1) o Ddeddf 1984 (adrodd am achosion o glefyd hysbysadwy a gwenwyn bwyd);

(b) y swyddog priodol heb gyflawni'r ddyletswydd o anfon copïau o'r dystysgrif honno at bartïon penodedig eraill o dan adran 11(3) o'r Ddeddf honno(**5**) cyn 26 Gorffennaf 2010; ac

(c) y dystysgrif yn ymwneud â chlefyd hysbysadwy a restrir yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau Hysbysu (Clefydau a Syndromau Hysbysadwy),

rhaid trin y dystysgrif honno fel hysbysiad a anfonwyd o dan reoliad 2 o'r Rheoliadau Hysbysu (dyletswydd i hysbysu ynghylch amheuaeth o glefyd, haint neu halogiad mewn cleifion).

(2) At ddibenion is-baragraff (1), rhaid trin y swyddog priodol fel pe bai wedi cael yr hysbysiad ar 26 Gorffennaf 2010.

(**3**) O.S. 2010/1546 (Cy.144).
(**4**) O.S. 2010/1545 (Cy.143).
(**5**) Cyn ei diddymu, diwygiwyd adran 11(3) gan Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002 (p.17), Atodlen 2, Rhan 2, paragraffau 50(1) a (2).